THE CROWN ESTATE

Meithrin partneriaethau cryf

Uchafbwyntiau Cymru 2011

Mae Ystad y Goron yn ymrwymedig i bartneriaethau. P'un a yw'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a buddsoddwyr i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y môr, neu gyda chymunedau lleol yng nghefn gwlad Cymru, credwn mai cydberthnasau cadarn yw conglfeini busnes da.

Ceisiwn weithio'n unol â llywodraeth a pharchu natur ddynamig datganoli; dull gweithredu sydd wedi bod wrth wraidd ein cydberthynas â Chymru yn ystod blwyddyn ariannol 2010/11.

Deall Ystad y Goron

Rôl ein sefydliad, a grëwyd gan Ddeddf Seneddol, yw cynnal a gwella gwerth ystadau etifeddol y Goron, ar ran y genedl.

Ein gweledigaeth yw sicrhau mai ni yw'r cwmni eiddo uchaf ei fri yn y DU o ganlyniad i'r ffordd fasnachol a chynaliadwy rydym yn rheoli'r portffolio amrywiol o asedau.

Caiff yr elw a wneir yn sgîl ein gweithgareddau ei dalu i'r Trysorlys er budd y genedl. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae hyn wedi cyfateb i bron £2 biliwn ledled y DU, tra bod gwerth cyfalaf y portffolio wedi cynyddu dros £3 biliwn yn ystod yr un cyfnod.

Mae ein portffolio yng Nghymru yn un eang ac, ar ein hystad wledig, mae'n cynnwys ardaloedd mawr o dir comin, daliadau amaethyddol ac amrywiaeth o fuddiannau mwynol. Mae ein hystad forol yn cwmpasu tua hanner y blaendraeth a gwely'r môr hyd at 12 milltir forwrol, lle rydym yn chwarae rôl allweddol i alluogi datblygwyr i wireddu potensial ynni adnewyddadwy, yn enwedig drwy ffermydd gwynt ar y môr.

Wrth reoli ein hystadau yng Nghymru y nod yw gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth a chymunedau lleol er budd pawb. Rydym wedi meithrin cydberthnasau gwaith da â Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, cynghorau lleol, cymunedau a'n cwsmeriaid ein hunain.

Er mai gwneud elw yw ein hamcan craidd, cyfunwn y rheidrwydd masnachol hwnnw ag ymrwymiad yr un mor gadarn i'n gwerthoedd sydd a wnelo ag uniondeb a stiwardiaeth. Rheolwn yr asedau sydd yn ein gofal er budd hirdymor a chynaliadwy ein tenantiaid a chwsmeriaid eraill, eu busnesau, y cymunedau a gynrychiolir ganddynt, a'r amgylchedd.

Ein perfformiad

	Ystad y Goron Cymrus 12 mis hyd at 31 Mawrth 2011 £m	Ystad y Goron Cymru 12 mis hyd at 31 Mawrth 2010 £m	**Cyfanswm Ystad y Goron** 12 mis hyd at 31 Mawrth 2011 £m	Cyfanswm Ystad y Goron 12 mis hyd at 31 Mawrth 2010 £m	Cynnydd/gostyngiad) o'r flwyddyn gynt	% o'r cyfanswm
Refeniw	**2.8**	2.6	**306.8**	299.7	7.7%	0.9%
Gwarged gros	**2.5**	2.3	**264.3**	246.8	8.7%	0.9%
Gwerth eiddo[1]	**31.3**	28.8	**6,703.3**	5,988.7	8.7%	0.5%
Buddsoddiadau cyfalaf[1]	**0.4**	0.2	**571.0**	394.4		
Derbyniadau cyfalaf	**0.1**	1.8	**406.1**	419.0		

1 Gweler Prisio ffermydd gwynt ar T4.

Gwerth eiddo yn ôl ystad
Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £m

A Morol – 2.3
B Gwledig – 0.5



Refeniw yn ôl ystad
Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £m

A Morol – 23.9
B Gwledig – 7.4





Roger Bright CB
Llofnodwyd gan yr is-gomisiynydd a'r swyddog cyfrifyddu ar ran y Bwrdd
28 Gorffennaf 2011

Yr ystad a'i huchafbwyntiau ariannol

Yr ystad wledig yng Nghymru

Mae gennym ystadau gwledig yn Aberystwyth, Pumlumon a Thyndyrn sy'n creu cyfanswm o 1,326 hectar (3,277 erw) o dir amaethyddol a 26,885 hectar (66,435 erw) o dir comin yng Nghymru.

Yr ystad forol yng Nghymru

Yng Nghymru mae ein buddiannau economaidd yn cynnwys porthladdoedd, marinas, ffermydd gwynt a safleoedd echdynnu agregau morol.

Ni yw ceidwaid gwely'r môr hyd at y terfyn tiriogaethol o 12 milltir forol, gan gynnwys yr hawliau i chwilio am adnoddau naturiol sgafell gyfandirol y DU (heb gynnwys olew, nwy a glo) a'u defnyddio. Rydym yn gyfrifol am 65 y cant o flaendraeth Cymru.

Drwy ein Cronfa Cymunedau Morol cefnogwn amrywiaeth o brosiectau ymarferol sy'n cyfrannu at stiwardiaeth dda ar hyd arfordir y DU. Yng Nghymru, mae ein prosiectau'n amrywio o gefnogi'r defnydd cynaliadwy o gychod ar Afon Teifi i fuddsoddi yng Ngwarchodfa Adar Conwy.

Mwyngloddiau Brenhinol a mwynau

Mae gennym 245,000 erw (99,000 hectar) o berchenogaeth mwynau yn unig yng Nghymru. Mae Ystad y Goron yn rhoi prydlesau i weithredwyr masnachol sy'n caniatáu iddynt chwilio am aur ac arian a'u mwyngloddio ledled y DU. Ceir 11 o safleoedd yng Nghymru, mewn chwe awdurdod lleol, sydd wedi'u prydlesu at ddibenion echdynnu mwynau.

Refeniw yn ôl gweithgaredd

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £m	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £m
Ceblau/piblinellau	**0.2**	0.2
Arfordirol	**1.3**	1.4
Carthu	**0.4**	0.1
Ynni adnewyddadwy	**0.4**	0.4
Morol	**2.3**	2.1
Amaethyddol	**0.1**	0.1
Mwynau	**0.4**	0.4
Gwledig	**0.5**	0.5
Cyfanswm	**2.8**	2.6

Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd

	Fel ar 31 Mawrth 2011 £m	Fel ar 31 Mawrth 2010 £m
Ceblau/piblinellau	**2.1**	1.9
Arfordirol	**16.4**	15.9
Carthu	**0.9**	0.6
Ynni adnewyddadwy	**4.5**	3.4
Morol	**23.9**	21.8
Amaethyddol	**4.0**	3.5
Mwynau	**3.1**	3.2
Coedwigaeth	**0.3**	0.3
Gwledig	**7.4**	7.0
Cyfanswm	**31.3**	28.8

Gweithio gyda Chymru

Meithrin partneriaethau o Gaerdydd i Gonwy

Mae Ystad y Goron yn ymrwymedig i bartneriaethau. P'un a yw'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a buddsoddwyr i gynhyrchu ynni ar y môr, neu gyda chymunedau lleol yng nghefn gwlad Cymru, credwn mai cydberthnasau cadarn yw conglfeini busnes da.

Ceisiwn weithio'n unol â llywodraeth a pharchu natur ddynamig datganoli; dull gweithredu sydd wedi bod wrth wraidd ein cydberthynas â Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn ystod blwyddyn ariannol 2010/11.

Partneriaeth strategol â Llywodraeth Cymru

Un maes pwysig o waith fu ynni adnewyddadwy ar y môr a chapasiti gweithgynhyrchu cysylltiedig yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad cryf i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn ffyrdd arallgyfeiriedig, ac mae hwn yn faes lle y gallwn chwarae rôl allweddol i'w helpu i gyflawni'r nod.

Ym mis Mawrth 2011, llofnododd Ystad y Goron a Llywodraeth Cymru Lythyr Bwriad i gydweithio er mwyn helpu i ddatblygu'r diwydiant ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Torrwyd tir newydd drwy lunio'r fath gytundeb â gweinyddiaeth ddatganoledig.

Mae'r gwaith yn edrych ar y gadwyn gyflenwi gyfan ar gyfer gwynt ar y môr, ond gan ganolbwyntio'n benodol ar borthladdoedd a harbwrs. Rydym wrthi'n siarad â datblygwyr ynni ar y môr a rhanddeiliaid ynni morol eraill am eu gofynion a'r heriau a wynebir ganddynt. Bydd hyn yn helpu i nodi lle mae angen uwchraddio cyfleusterau porthladdoedd, a bydd yn meithrin dealltwriaeth datblygwyr o sut y gellir cyflawni'r gwelliannau hyn.

Ein nod cyffredin yw galluogi porthladdoedd Cymru i wireddu eu potensial; cyflwyno swyddi a sgiliau newydd, a gwneud cyfraniad pwysig i'r economi yn ogystal â thargedau newid yn yr hinsawdd i Gymru a gweddill y DU.

Cefnogi cymunedau Cymru

Mae Cronfa Cymunedau Morol Ystad y Goron, a sefydlwyd yn 1999, yn cefnogi mentrau sy'n cyfrannu at y gwaith da a wneir i reoli a stiwardio ein hystad forol. Ariannwn amrywiaeth o brosiectau bach a mawr yng Nghymru. Er enghraifft:

Prosiect Cychod Afon Teifi

Gan weithio gydag Afon Teifi Fairways Ltd, mae'r prosiect yn anelu at reoli aber Afon Teifi mewn ffordd fwy cynaliadwy, gan roi cyngor da i'r rheini sy'n defnyddio cychod ar y dyfroedd. Er mwyn helpu i hyfforddi morwyr ifanc, mae Ystad y Goron wedi cyfrannu tuag at brynu pontynau aml-bwrpas. Defnyddir y rhain fel glanfeydd cynorthwyol yn ystod y gaeaf a gellir eu hailgyflunio i godi angorfeydd a chyflawni mân waith peirianneg. Fe'u defnyddir yn helaeth hefyd yn ystod gwyliau dŵr yn Aberteifi.

Gwarchodfa Adar Conwy a Gwlyptiroedd Casnewydd a reolir gan RSPB Cymru

Mae Ystad y Goron wedi meithrin partneriaeth gref ag RSPB Cymru ar y ddau safle hyn. Mae'r gwarchodfeydd adar yn parhau i fod yn atyniadau twristiaid o'r radd flaenaf ac fe'u mwynheir gan wylwyr adar brwd hefyd. Yng Nghonwy gwnaethom ariannu'r gwaith o ailwampio'r system bwmpio sy'n rheoli lefelau'r lagwnau ar y safle.

Cynllun Parthau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Yn Freshwater East, sy'n draeth poblogaidd iawn gyda thwristiaid a defnyddwyr cychod hamdden, gwelwyd gwrthdaro cynyddol rhwng grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr a nodwyd y byddai cynllun parthau yn ffordd o wahanu gweithgareddau. Rhoddodd Ystad y Goron grant i'r Awdurdod i'w alluogi i brynu 30 o fwiau marcio a chadwyni suddo er mwyn dangos ardaloedd gwahanol i nofwyr a phadlwyr a defnyddwyr cychod pŵer ar draeth Freshwater East.

Gwarchod creigres llyngyr diliau yn Llanddulas

Mae llyngyr diliau heidiol yn adeiladu tiwbiau o dywod a darnau o gregyn, gan ffurfio creigresi byw bregus iawn sy'n gallu bod yn sawl metr o led. Gan weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, rydym wedi ariannu a gosod bwrdd dehongli i helpu i godi ymwybyddiaeth twristiaid a physgotwyr, a gwarchod y greigres rhag unrhyw ddifrod damweiniol.

Llywio mentergarwch ddynamig

Cefnogi swyddi, twf ac economi Cymru

Ledled Cymru gweithiwn gyda byd busnes i sicrhau buddsoddiad, swyddi a thwf. Mae'r busnesau dan sylw yn drawstoriad o fentrau dynamig yng Nghymru: o weithgareddau hamdden megis marinas i gwmnïau ynni a phorthladdoedd sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy morol.

Helpu i greu diwydiant ynni adnewyddadwy yng Nghymru

Ledled y DU mae'r diwydiant ynni gwynt ar y môr yn gyfrifol am rai o'r prosiectau seilwaith mwyaf yn y byd. Ar draws y DU mae'n bosibl y gellid buddsoddi dros £100 biliwn yn y farchnad a chreu tua 57,000 o swyddi newydd erbyn 2020. Gyda digonedd o wynt ar gael, mae Cymru mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y newid cenedlaethol hwn tuag at ynni carbon isel.

Er mwyn achub ar y cyfle hwn, rhaid cael cadwyn gyflenwi gystadleuol, dibynadwy a hyblyg sy'n sail i'r diwydiant. Caiff busnesau Cymru gyfle i ymwneud â'r fenter nid yn unig drwy ffermydd gwynt Cymru ond hefyd drwy brosiectau ar hyd a lled y wlad.

Ar ddechrau 2011 cynhaliodd Ystad y Goron ddau ddigwyddiad cadwyn gyflenwi i fusnesau yng Nghymru. Fe'u cynhaliwyd yng Nghaerdydd ac ar Lannau Mersi mewn partneriaeth ag Envirolink, Awdurdod Datblygu Gogledd-orllewin Lloegr (NWDA) a Llywodraeth Cymru. Cafodd pum digwyddiad arall eu cynnal mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae'r rhain yn helpu cwmnïau yng Nghymru i ddeall yr hyn y gallant ei wneud i fynd i'r afael â'r her, gan ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf, cyfleoedd rhwydweithio i adeiladu ar gydberthnasau â phartneriaid a'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai sy'n ymwneud yn benodol â'r gadwyn gyflenwi.

Terfynell Nwy Hylifedig Naturiol Aberdaugleddau

Mae'r derfynell nwy hylifedig naturiol (LNG) yn South Hook, Aberdaugleddau yn gwbl weithredol bellach. Yn ogystal â chreu swyddi sgil uchel yn yr ardal, mae hefyd yn fuddsoddiad parhaus yn Sir Benfro. Cefnogwyd y prosiect gan Ystad y Goron. Mae gweithgarwch morgludiant y derfynell eleni wedi cyfateb i gyfanswm o tua 12.9 miliwn o dunelli gros; cynnydd o gymharu â ffigur y llynedd, sef 4.3 o dunelli.

Uchod
Terfynell LNG Aberdaugleddau.

Deunyddiau crai ar gyfer gwaith adeiladu a diwydiant

Gan fod ein daliadau yng Nghymru yn cynnwys tua 245,000 erw (99,000 hectar) o hawliau mwynau a phrydlesau ar gyfer 11 o fusnesau mwynau, mae chwarela deunyddiau crai at ddiben gwaith adeiladu a diwydiant yn weithgarwch pwysig i Ystad y Goron. Erys y rhain yn asedau da ac mae'r amryw fusnesau sy'n gyfrifol am echdynnu'r deunyddiau hyn yn parhau i wneud cyfraniad pwysig i swyddi lleol.

Yn ogystal ag agregau, mae gan Ystad y Goron hefyd fuddiannau mewn chwareli llechi ac yn ystod y flwyddyn ariannol hon daeth i gytundeb newydd â Welsh Slate. Bydd hyn yn golygu y gellir parhau i drin llechi yn Chwarel Manod hyd y gellir rhagweld.

Mae echdynnu mwynau yn fater sensitif a gweithiwn yn galed i reoli ei effaith ar yr amgylchedd a chymunedau lleol. Mae chwareli yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth lem. Caiff arferion gwaith da eu rhagnodi gan awdurdodau cynllunio a'u hategu gan arolygiadau rheolaidd a gynhelir gan ein hasiantau mwynau, o dan ein rhaglen archwilio amgylcheddol.

Cefnogi cyfleoedd hamdden a thwristiaeth yng Nghymru

Mae Ystad y Goron yn rheoli Marina Conwy a Marina Deganwy. Yn ystod y flwyddyn buddsoddwyd mewn gwelliannau i Farina Deganwy a pherfformiodd y ddau yn dda drwy gydol 2010/11. Maent wedi parhau i ddenu ymwelwyr a chynnig angorfeydd hirdymor i fadau hamdden, ac maent bellach naill ai'n llawn neu'n agos at hynny.

Ynni i'r genedl

Helpu i lunio dyfodol adnewyddadwy Cymru

Credwn fod y sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn mynd i dyfu. Mae cyfleoedd sylweddol ar gael o ran buddsoddiadau economaidd a chymunedau, yn amrywio o brosiectau bach ar y tir i osodiadau mawr ar y môr.

Ar un pegwn, mae Ystad y Goron yn ymchwilio i brosiect i leoli gorsaf microgynhyrchu ynni trydan dŵr ar Fferm Pumlumon sydd ar ein hystad wledig. Ar y pegwn arall, mae gan ynni gwynt ar y môr ac ynni adnewyddadwy y potensial i wneud Cymru yn wlad gyfoethog iawn o ran ynni, a gwneud cyfraniad sylweddol i sicrwydd ynni'r DU ynghyd â'r ynni a gaiff ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy.

Yn bwysig, bydd ynni adnewyddadwy hefyd yn creu swyddi a buddsoddiad ac yn cyfrannu at ddatblygu diwydiant pwysig sydd â chryn botensial ym maes allforio.

Bydd angen arbenigedd, profiad a buddsoddiad i wireddu'r cyfleoedd hyn. Fel stiwardiaid y gwely môr tiriogaethol ac ar ôl cyflwyno'r ddwy rownd gyntaf o ddatblygiadau ffermydd gwynt ar y môr o amgylch y DU, bydd Ystad y Goron yn chwarae rôl weithredol wrth helpu Cymru i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau ar y môr.

Mae'r fferm wynt gyntaf a leolwyd ar y môr yn nyfroedd Cymru, sef fferm wynt North Hoyle, wedi bod yn weithredol ers 2003 ac ar hyn o bryd mae'n diwallu anghenion ynni blynyddol 40,000 o gartrefi. Heddiw mae Gwastadeddau'r Rhyl yn y Gogledd yn diwallu anghenion ynni blynyddol 61,000 o gartrefi. Pan gwblheir Gwynt y Môr yn 2014 hon fydd fferm wynt fwyaf Cymru gan gynhyrchu digon o ynni ar gyfer 400,000 o gartrefi (40% o'r cartrefi yng Nghymru).

Yn ystod 2010/11, gwnaethom barhau i fwrw ati â rhaglen Rownd 3 ar gyfer defnyddio ynni gwynt ar y môr. Ceir naw o barthau gwynt ar hyd arfordir y DU, y mae dau ohonynt mewn dyfroedd sy'n agos i Gymru: dyfarnwyd Parth Môr Iwerddon i Centrica Renewable Investments Ltd gyda'r parth ym Môr Hafren bellach yn nwylo Bristol Channel Zone Ltd (sy'n eiddo i RWE npower yn gyfan gwbl). Mae Ystad y Goron wedi ymrwymo i fuddsoddi dros £100 miliwn yn Rownd 3 er mwyn dileu cynifer o'r risgiau â phosibl a allai amharu ar y gwaith datblygu.

Uchod
Fferm wynt North Hoyle.

Ar y dyddiad prisio (31 Mawrth 2011) roedd y cynigion i ddatblygu'r parthau unigol sy'n creu Rownd 3 ar gam cynnar awn. Er bod Ystad y Goron wedi rhoi neilltuolaeth i ddatblygwyr unigol, nid oedd ymrwymiad cyfrwymol cyfatebol yn bodoli ac mewn rhai achosion ni chytunwyd ar ffurf derfynol y gwaith datblygu ym mhob parth. Felly, mae risg sylweddol ynghlwm wrth Barthau unigol na fyddant yn cynhyrchu'r incwm disgwyliedig.

Prisiwyd ffermydd gwynt Rownd 3 ar sail 'portffolio', hynny yw tybiwyd y byddai buddiant Ystad y Goron ym mhob Parth yn cael ei werthu fel un endid er mwyn lledaenu'r risg. O ganlyniad, ni all y prisiad ym mhrif gyfrifon Ystad y Goron gael ei rannu rhwng Parthau unigol ac ni ellir pennu gwerth unigol ar gyfer ffermydd gwynt Rownd 3 a leolir oddi ar arfordir Cymru. Fel y cyfryw, nid yw'r ffigurau a ddangosir ar gyfer gwerth eiddo a buddsoddiad cyfalaf yn yr adran 'ein perfformiad' yn cynnwys unrhyw ddyraniad o gostau na gwerth mewn perthynas â Rownd 3.

Gan edrych y tu hwnt i ffermydd gwynt ar y môr, rydym yn parhau i gynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gallwn helpu i wireddu'r potensial sydd ynghlwm wrth gynhyrchu ynni o brosiectau tonnau a llanw ledled Cymru.

Nôl i natur

Diogelu'r amgylchedd a threftadaeth Cymru

Mae gan Gymru amgylchedd cyfoethog ac amrywiol y mae'n rhaid ei ddiogelu a'i wella, ar gyfer cenedlaethau nawr ac yn y dyfodol.

Caiff ein hamcanion masnachol eu cydbwyso â chydnabyddiaeth glir o'n cyfrifoldebau ym maes stiwardiaeth. Fel sy'n gwbl gywir, mae pobl yn disgwyl i ni bob amser geisio gwneud y peth iawn er lles hirdymor asedau sy'n rhan o dreftadaeth a gwead y genedl.

Ein prif nod yw sicrhau perfformiad cynaliadwy, hirdymor ar ein hystad wledig drwy systemau rheoli gweithredol. Anelwn at ragori ar ein meincnod gwledig IPD, tra'n achub ar gyfleoedd i gydfuddsoddi â rhanddeiliaid a fydd o fantais i bawb.

Tir Comin Cymru

Mae'r rhan fwyaf o'n hystad yng Nghymru yn dir comin; fe'i defnyddir yn bennaf fel tir pori i ddefaid.

Cominwyr, sy'n gweithredu drwy gymdeithasau cominwyr, sydd fel arfer yn gyfrifol am reoli tir comin o ddydd i ddydd. Ein nod yw gweithio gyda'n tenantiaid i'w helpu i sicrhau llwyddiant parhaus eu busnesau. Darparwn gyfalaf ar gyfer prosiectau cydfuddsoddi hyfyw a hwyluswn y gwaith o hyrwyddo a marchnata cynhyrchion a gwasanaethau o'r radd flaenaf.

Er enghraifft, rydym wrthi'n ymchwilio i'r defnydd o gynlluniau trydan dŵr bach ar dir comin ac rydym yn gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru i nodi a rhestru'r holl Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAu) a geir yng Nghymru mewn cronfa ddata. Yna gobeithiwn gytuno ar y camau gweithredu sydd eu hangen i wella cyflwr safleoedd o'r fath; gan helpu i'w gwarchod ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Abaty Tyndyrn a Phumlumon

Rydym yn gyfrifol am ddau ddaliad amaethyddol yng Nghymru: mae Pumlumon yn cynnwys dau ddaliad amaethyddol ac mae Tyndyrn yn cynnwys Abaty Tyndyrn a buddiannau mwynau sylweddol ar lan orllewinol Afon Gwy. Er mwyn diogelu'r gofeb hon am genedlaethau i ddod, cytunwyd i roi'r Abaty yng ngofal CADW o dan gytundeb rheoli hirdymor. Mae Abaty Tyndyrn yn borth hanesyddol i lawer o ymwelwyr sy'n dod i Gymru bob blwyddyn.

Mwyngloddiau Brenhinol a mwyngloddiau segur

Gelwir dyddodion aur ac arian yn Fwyngloddiau Brenhinol ac maent yn eiddo i Ystad y Goron lle bynnag y'u ceir yn y rhan fwyaf o'r DU. Cafwyd gweithgarwch cynhyrchu masnachol yng Nghymru yn y gorffennol, ond nid oes unrhyw gynhyrchu o'r fath ar hyn o bryd. Mae pris uchel aur o Gymru a'i stôr sylweddol wedi esgor ar fwy o ddiddordeb mewn chwilio amdano dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac, yn y pen draw, gallai hyn arwain at ailddechrau ei gynhyrchu.

Yn sgîl ein perchenogaeth hanesyddol o fwynau, mae gennym rai cyfrifoldebau am fwyngloddiau segur penodol ac yn ystod 2010/11 buddsoddwyd dros £100,000 mewn gofalu am y safleoedd hyn. Er enghraifft, rydym yn gweithio'n agos â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a CADW i gydbwyso materion diogelwch a chadwraeth ar safle mwyngloddio Cwmystwyth yng Ngheredigion. Ar y safle hwn, roedd strwythurau arwyneb hanesyddol wedi dirywio hyd nes eu bod yn beryglus ac mae gwaith yn mynd rhagddo i'w gwneud yn ddiogel.

Mae hyn yn rhan o raglen hirdymor i ddiogelu'r cyhoedd drwy reoli risgiau amgylcheddol, trin peryglon a ffensio o amgylch siafftiau mwyngloddiau.

Ceidwaid arfordir Cymru

Mae ein daliadau arfordirol yn cynnwys ardaloedd hardd iawn sy'n bwysig yn genedlaethol, a chymerwn ein cyfrifoldebau amdanynt ac am bobl Cymru o ddifrif. Yr her yw cydbwyso blaenoriaethau amgylcheddol â chyfleoedd datblygu cynaliadwy masnachol. Cyflawnwn hyn drwy weithio'n agos â'r holl ddiwydiannau morol megis porthladdoedd, harbwrs, marinas, y sector ynni adnewyddadwy a'n holl ddaliadau tir gwledig.

Rheoli hawliau mwynau ar y môr

Mae ein hystad forol hefyd yn cynnwys yr hawliau i fwynau sydd ar neu islaw gwely'r môr, o'r arfordir hyd at ymyl sgafell gyfandirol y DU, ond heb gynnwys olew a nwy. Fel tirfeddiannwr, dosbarthwn drwyddedau i echdynnu agregau unwaith y bydd cwmni wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, sy'n rheoleiddio'r mater.

Fel rhan o'n rôl stiwardio, yn 2010/11 gwnaethom barhau i fuddsoddi mewn gwaith ymchwil i garthu a'i effeithiau. Adolygwn y dystiolaeth wyddonol sydd ar gael yn fynych er mwyn dilyn arfer gorau a sicrhau bod y diwydiant hwn yn parhau i fod yn un cynaliadwy.

Mae agregau yn rhan bwysig o'n busnes, nid yn unig i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru, ond hefyd i'r llu o fusnesau, pobl a chymunedau sy'n dibynnu arno am waith ac incwm. Daw'r rhan helaeth o dywod naturiol a ddefnyddir mewn gwaith adeiladu ledled De-ddwyrain Cymru o Fôr Hafren.

Adroddiad y Rheolwr Ac Archwilydd Cyffredinol i Gomisiynwyr Ystad Y Goron

IRwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Ystad y Goron ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011, y mae'r wybodaeth ariannol y tu mewn i'r clawr blaen ac ar dudalen 1 yn deillio ohonynt, yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol. Yn fy adroddiad dyddiedig 23 Mehefin 2011, rhoddais farn ddiamod ar y datganiadau ariannol y deilliodd y wybodaeth ariannol ohonynt.

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth ariannol gysylltiedig wedi'i dwyn ynghyd yn gywir, ym mhob ffordd berthnasol, o'r cofnodion cyfrifyddu a ddefnyddiwyd i lunio'r datganiadau ariannol a archwiliwyd y gwnaethant ddeillio ohonynt.

I feithrin gwell dealltwriaeth o sefyllfa ariannol y Cwmni, canlyniadau ei weithrediadau ar gyfer y cyfnod a chwmpas ein harchwiliad, dylai'r wybodaeth ariannol gael ei darllen ar y cyd â'r datganiadau ariannol y deilliodd y wybodaeth ariannol ohonynt a'n hadroddiad archwilio arnynt.

Amyas C E Morse
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

29 Gorffennaf 2011